



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

**Hawdd ei Ddeall**

# Ein cynlluniau ar gyfer trin pawb yn gyfartal

**Ebrill 2015 hyd Mawrth 2019**



**Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o 'Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019' Ebrill 2015**





# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai bydd arnoch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn byddan nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Os gwelwch chi eiriau mewn **ysgrifennu glas cyffredin**, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 20.



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fersiwn fydd yn cwrdd â'ch anghenion, neu yr hoffech chi siarad â ni am ein gwaith, cysylltwch â ni:



**Ffôn:** 0300 065 3000 (8am - 5pm dydd Llun i ddydd Gwener)

**Ffôn testun minicom:** Os ydych chi'n drwm eich clyw mae gennym ni wasanaeth ffôn testun. Ffoniwch: 03702 422 549



**E-bost:** [enquiries@naturalresources.wales](mailto:enquiries@naturalresources.wales)

**Gwefan:** [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)



Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon .....	2
Pwy ydyn ni.....	5
Y ddeddf ar gydraddoldeb.....	6
Ein cynllun cydraddoldeb.....	10
Cadw golwg ar sut rydyn ni'n gwneud .....	12
Cynllun cydraddoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru 2015 - 2019 .....	14
Geiriau anodd .....	20



## Llifogydd

Am wybodaeth am lifogydd ffoniwch ein Llinell Rhybuddion Llifogydd.

Ffôn 0345 988 1188 (Ar agor 24 awr)



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols 5.







# Pwy ydyn ni

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fudiad newydd. Cafodd ei gychwyn yn Ebrill 2013 i ofalu am yr **amgylchedd** a **chyfoeth naturiol** yng Nghymru.



Mae'r **amgylchedd** o amgylch ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.



Mae **cyfoeth naturiol** yn bethau yn yr amgylchedd y gallwn ni eu defnyddio. Er enghraifft: dŵr i'w yfed, bwyd i'w fwyta, aer i'w anadlu, gwynt a dŵr i wneud ynni.



Os ydyn ni'n cymryd gofal o'r **amgylchedd**, fe fyddwn ni'n gallu defnyddio ei **gyfoeth naturiol** am flynyddoedd i ddod.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru yn ein cefnogi ac rydyn ni'n eu cynghori nhw ynghylch sut i ofalu am yr **amgylchedd** a'n **cyfoeth naturiol**.



Rydyn ni am wneud yn siŵr bod **cydraddoldeb** wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud. Mae'r ddogfen hon yn sôn am beth rydyn ni'n mynd i'w wneud i fod yn siŵr ein bod ni'n trin pawb yn deg.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfle.



# Y Ddeddf ar gydraddoldeb

Mae **Deddf Cydraddoldeb** (2010) yn ddeddf i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd.



Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn dweud bod gan bawb yr hawl i:

- gael eu trin yn deg
- cael yr un cyfleoedd â phawb mewn bywyd
- peidio â chael neb yn **gwahaniaethu** yn eu herbyn.



Bydd **gwahaniaethu** yn eich erbyn yn digwydd pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg.



Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn amddiffyn rhywun rhag pobl sy'n **gwahaniaethu** yn eu herbyn. Mae llawer o grwpiau o bobl y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn, gan gynnwys:

- dynion a menywod



- pobl anabl



- **pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl** - pobl sydd angen cefnogaeth gyda'u meddyliau neu eu hemosiynau



- pobl o wahanol oed – pobl ifainc neu bobl hŷn



- pobl sy'n dod o wledydd eraill neu ddiwylliannau eraill – pobl sydd efallai'n byw mewn ffordd wahanol neu sydd â lliw croen gwahanol



- pobl o wahanol grefyddau – neu bobl sydd heb grefydd



- menywod sy'n disgwyl babi neu fenywod sy'n rhoi llaeth o'u bron i'r babi



- **menywod hoyw** – menywod sy'n ffansïo ac yn caru menywod eraill



- **dynion hoyw** – dynion sy'n ffansïo ac yn caru dynion eraill



- **dynion a menywod deurywiol** – dynion neu fenywod sy'n ffansïo dynion a menywod



- **pobl drawsrywiol** – pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond fuasai'n hoffi byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn iddo.



## Mae'r ddeddf yn dweud bod yn rhaid i ni:



- helpu pobl o bob un o'r grwpiau y mae'n bosibl [gwahaniaethu](#) yn eu herbyn i gyd-dynnu'n dda â'i gilydd



- ceisio cyflogi pobl o'r grwpiau y mae'n bosibl [gwahaniaethu](#) yn eu herbyn

## Cydraddoldeb



- gwneud yn siŵr bod ein staff yn deall [cydraddoldeb](#)



- peidio â gadael i neb [wahaniaethu](#) yn erbyn pobl.








## Beth bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud

### Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn:

- gwneud yn siŵr bod popeth rydyn ni'n wneud yn cynnwys [cydraddoldeb](#). Bydd hyn yn dangos pa mor bwysig rydyn ni'n meddwl yw [cydraddoldeb](#)



- gofyn i bob un o'n grwpiau feddwl am eu haelodau. Ydyn nhw'n cynnwys pobl o'r grwpiau y mae'n bosibl [gwahaniaethu](#) yn eu herbyn?



- gwneud yn siŵr y gall pawb ddefnyddio ein hyfforddiant



- peidio â goddef bwlio.





# Ein cynllun cydraddoldeb

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni bob amser yn trin pobl yn deg rydyn ni wedi gwneud **Cynllun Cydraddoldeb**.



Mae **Cynllun Cydraddoldeb** yn gynllun sy'n dweud beth byddwn ni'n ei wneud i fod yn siŵr nad ydyn ni'n gwahaniaethu yn erbyn pobl.



Rydyn ni wedi gofyn i bobl o'r grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn beth maen nhw'n feddwl o'r cynllun hwn. Fe wnaethon ni wrando ar beth roedd pobl yn ddweud wrthon ni. Fe geision ni ddefnyddio'u syniadau i wneud y cynllun hwn.



Mae gennym ni bum nod rydyn ni am i bawb feddwl amdany'n nhw. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn dda am **gydraddoldeb**:



1. Gwybodaeth dda
2. Da ar gyfer yr amgylchedd
3. Da ar gyfer pobl
4. Da ar gyfer busnes
5. Lle da i weithio ynddo





## 1. Gwybodaeth dda

Rydyn ni am wneud yn siŵr ein bod ni'n gwybod pwy sy'n defnyddio **cyfoeth naturiol** yng Nghymru. Fe fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau ynglŷn â beth rydyn ni'n wneud.



## 2. Da ar gyfer yr amgylchedd

Rydyn ni am helpu pawb i wybod am y manteision o gael **amgylchedd** da. Rydyn ni am i bawb yng Nghymru fynd allan i fwynhau'r **cyfoeth naturiol** sydd gennym ni yng Nghymru.



## 3. Da ar gyfer pobl

Rydyn ni am wneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd i bawb ddefnyddio **cyfoeth naturiol** yng Nghymru. Mae arnon ni angen dal ati i siarad â phobl i wneud yn siŵr bod y pethau rydyn ni'n eu cynnig yn hawdd i'w defnyddio.



## 4. Da ar gyfer busnes

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn deall pa mor bwysig yw **cydraddoldeb** i ni. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod **cydraddoldeb** yn rhan o bopeth rydyn ni'n wneud.



## 5. Lle da i weithio ynddo

Rydyn ni am i'n staff fod o bob un o'r grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn. Rydyn ni am i'n holl staff deimlo'n hapus ac yn ddiogel yma.

# Cadw golwg ar sut rydyn ni'n gwneud



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n cadw at y cynllun hwn. Fe fyddwn ni'n cael pedwar cyfarfod y flwyddyn i weld pa mor dda rydyn ni'n gwneud.



Unwaith y flwyddyn fe fyddwn ni'n edrych ar ein pum nod. Fe fyddwn ni'n edrych a yw'r nodau hyn yn dal i fod yn bethau sydd angen eu gwneud



Fe fyddwn ni'n edrych ar ein cynllun gweithredu bob blwyddyn. Efallai bydd ein gwybodaeth yn dangos i ni bod arnon ni angen gwneud mwy. Yna fe fyddwn ni'n ychwanegu hyn at ein cynllun gweithredu.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn i ddangos beth rydyn ni wedi ei wneud ar gyfer [cydraddoldeb](#).



Fe fyddwn ni'n rhoi'r holl wybodaeth am ein [Cynllun Cydraddoldeb](#) ar ein gwefan. Fe allwn ni roi'r wybodaeth hon mewn fersiwn sydd orau ar eich cyfer chi. Cysylltwch â ni i ddweud sut y buasech chi'n hoffi cael yr wybodaeth.







# Cynllun cydraddoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru 2015-2019

Dyma sut y byddwn ni'n cyrraedd ein pum nod.

## 1. Gwybodaeth dda



Rydyn ni am wneud yn siŵr ein bod ni'n gwybod pwy sy'n defnyddio'r **cyfoeth naturiol** yng Nghymru. Fe fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau ynglŷn â beth rydyn ni'n ei wneud.



I wneud hyn fe fyddwn ni'n:

- casglu gwybodaeth am ein staff a'r bobl sy'n defnyddio'r **cyfoeth naturiol** yng Nghymru



- defnyddio'r wybodaeth i feddwl am ffyrdd o fod yn well am drin pobl yn **gyfartal**



- gweld faint o bobl o'r grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn sy'n defnyddio'r **cyfoeth naturiol** yng Nghymru



- gweld pa mor dda rydyn ni wedi gwneud ar gyfer pobl o'r grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn



- gofyn i bobl o'r grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn beth mae'n nhw'n feddwl am brosiectau newydd.





## 2. Da ar gyfer yr amgylchedd

Rydyn ni am helpu pawb i wybod am fanteision cael **amgylchedd** da. Rydym ni am i bawb yng Nghymru fynd allan a mwynhau'r **cyfoeth naturiol** sydd gennym ni yng Nghymru.



I wneud hyn fe fyddwn ni'n:

- dod i adnabod grwpiau lleol a grwpiau Cymru gyfan ar gyfer y bobl yn y grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn

**Cwestiynau**


1. Beth rydych chi'n feddwl amdano?

Da

Gwael

Ddim yn siwr

- gweld beth sy'n rhwystro rhai pobl rhag defnyddio'r **cyfoeth naturiol** yng Nghymru. Yna ceisio gwneud rhywbeth yn ei gylch.



- gwneud yn siŵr bod ein staff yn cael hyfforddiant ynglŷn â **chydreddoldeb**.





### 3. Da ar gyfer pobl

Rydyn ni am wneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd i bawb ddefnyddio **cyfoeth naturiol** yng Nghymru. Mae arnon ni angen dal ati i siarad â phobl i wneud yn siŵr bod y pethau rydyn ni'n eu cynnig yn hawdd i'w defnyddio.

I wneud hyn fe fyddwn ni'n:



- gweithio gyda phobl yn y grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn er mwyn gwneud **cyfoeth naturiol** yng Nghymru yn hawdd i'w ddefnyddio



- gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n siarad ar ein rhan yn gyhoeddus yn dod o'r grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn



- gwneud rhywbeth ar ddyddiadau pwysig ar gyfer grwpiau y mae'n bosibl **gwahaniaethu** yn eu herbyn



- gwneud yn siŵr bod ein holl **bolisiau** yn deg.

Mae **polisiau** yn rheolau y mae'n rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru eu dilyn. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni wneud.





1988





## 4. Da ar gyfer busnes

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn deall pa mor bwysig yw [cydraddoldeb](#) i ni. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod [cydraddoldeb](#) yn rhan o bopeth rydyn ni'n wneud.



I wneud hyn fe fyddwn ni'n:

- gwneud yn siŵr bod nodau ar gyfer [cydraddoldeb](#) yn ein cynllun busnes



- gofyn i fudiadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw am eu cynlluniau [cydraddoldeb](#)



- edrych beth y mae mannau eraill rydyn ni'n prynu ganddyn nhw yn ei wneud ynglŷn â [chydreddoldeb](#). Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu a fyddwn ni'n prynu ganddyn nhw.





## 5. Lle da i weithio ynddo

Rydyn ni am i'n staff fod o bob un o'r grwpiau y mae'n bosibl [gwahaniaethu](#) yn eu herbyn. Rydyn ni am i'n holl staff deimlo'n hapus ac yn ddiogel yma.

I wneud hyn fe fyddwn ni'n:



- gwneud yn siŵr bod ein rheolwyr yn cael hyfforddiant da ynglŷn â [chydreddoldeb](#)



- gweld faint o bobl o'r grwpiau y mae'n bosibl [gwahaniaethu](#) yn eu herbyn sydd yn ymgeisio am swyddi gyda ni



- edrych beth sy'n rhwystro pobl o'r grwpiau y mae'n bosibl [gwahaniaethu](#) yn eu herbyn rhag ymgeisio am swyddi gyda ni



- cefnogi staff o grwpiau y mae'n bosibl [gwahaniaethu](#) yn eu herbyn i gael eu cyfarfodydd eu hunain yn y gwaith



- gwrando ar beth mae'r cyfarfodydd staff yn ei ddweud wrthyn ni.

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Mae'r amgylchedd o amgylch ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfle.

## Cyfoeth naturiol

Mae cyfoeth naturiol yn bethau yn yr amgylchedd y gallwn ni eu defnyddio. Er enghraifft: dŵr i'w yfed, bwyd i'w fwyta, aer i'w anadlu, gwynt a dŵr i wneud ynni.

## Cynllun Cydraddoldeb

Mae Cynllun Cydraddoldeb yn gynllun sy'n dweud beth byddwn ni'n ei wneud i fod yn siŵr nad ydyn ni'n gwahaniaethu yn erbyn pobl.

## Deddf Cydraddoldeb

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod gan bawb yr hawl i:

- gael eu trin yn deg
- cael yr un cyfleoedd â phawb mewn bywyd
- peidio â chael neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

## Deurywiol

Dynion neu fenywod sy'n ffansïo dynion a menywod

## Dyn hoyw

Dyn sy'n ffansïo ac yn caru dynion eraill

## Gwahaniaethu

Bydd gwahaniaethu yn erbyn person yn digwydd pan fydd yn cael ei drin yn wael neu'n annheg.



## Menyw hoyw

Menyw sy'n ffansio ac yn caru menywod eraill

## Pobl drawsrywiol

Pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond fuasai'n hoffi byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn iddo.

## Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl

Pobl sydd angen cefnogaeth gyda'u meddyliau neu eu hemosiynau

## Polisiau

Mae polisiau yn rheolau y mae'n rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru eu dilyn. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni wneud.







Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

